Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Springholme Care Anglesey Ltd**

**Springholme**
**Traeth Coch**
**Pentraeth**
**LL75 8EX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Springholme Care Anglesey Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | SPRINGHOLME CARE ANGLESEY LTD |
| Lleoedd cofrestredig | 45 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 22 Tachwedd 2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Gwnaed gwelliannau ar draws sawl maes lle nodwyd diffyg cydymffurfio yn ystod arolygiadau blaenorol. Gwelsom welliannau o ran hyfforddiant y staff, a'r trefniadau ar gyfer cynllunio gofal ar gyfer rhai o'r bobl. Fodd bynnag, mae rhai manylion ar goll ac mae rhywfaint o anghysondeb yn y cynlluniau newydd y mae angen ymdrin ag ef, ac mae angen gwella cynlluniau gweddill y bobl.

Mae'r staff yn cefnogi'r bobl mewn modd cyfeillgar a charedig ac maent wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol ac yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl. Mae'r cartref yn gynnes, yn groesawgar ac mewn cyflwr da. Mae ystafelloedd y bobl yn gyfforddus ac wedi'u haddurno'n hyfryd.  Mae digonedd o seddi yn yr ardaloedd cymunedol i'r bobl gymdeithasu ynddynt.

Mae'r darparwr yn gwneud ymdrech benodol i ymdrin â'r achos o ddiffyg cydymffurfio sy'n parhau o hyd, ac mae Unigolyn Cyfrifol newydd wedi'i nodi. Mae'n cefnogi rheolwr newydd y gwasanaeth i lywio'r gwelliannau gofynnol ac mae'r cynnydd a wnaed yn yr arolygiad hwn yn gadarnhaol.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r cofnodion yn dangos bod y bobl a'u perthnasau neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y gwaith o adolygu a chynllunio eu gofal. Gwelsom fod y bobl yn cael eu cefnogi gan staff mewn modd cynnes, caredig a pharchus. Gall y bobl wneud eu dewisiadau eu hunain o ran pryd i wneud pethau a sut i dreulio eu hamser, yr hyn yr hoffent ei fwyta a ble yr hoffent fod. Roedd yr ystafelloedd gwely a welsom wedi'u personoli ag ornamentau a lluniau'r bobl.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff gofalgar a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hoffi byw yn y cartref. Mae'r cofnodion yn dangos bod y bobl yn cael gofal gan weithwyr iechyd proffesiynol mewn modd amserol, ac mae'r cofnodion gofal dyddiol yn adlewyrchu'r cynlluniau gofal sydd ar waith ar gyfer rhai o'r bobl. Mae gwelliannau wrthi'n cael eu gwneud i'r cynlluniau hynny nad ydynt wedi cael eu diweddaru eto, ond gwelsom fod y staff yn rhoi sylwi i anghenion y bobl ac yn eu hadnabod yn dda. Clywsom staff a phreswylwyr yn sgwrsio yn Gymraeg a gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cadarnhaol pan oedd y staff gofal yn helpu'r bobl i symud neu fwyta ac yfed.

Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud o ran sut y mae'r cartref yn diogelu'r bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Mae polisïau a gweithdrefnau diwygiedig ar waith ac mae'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Mae gwell dogfennaeth bellach ar waith i arwain y staff er mwyn iddynt allu asesu'r risgiau i'r bobl yn effeithiol ac i nodi materion diogelu posibl. Fodd bynnag, mae angen mwy o dystiolaeth i ddangos bod y newidiadau hyn yn effeithiol yn ymarferol.

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'r darparwr yn sicrhau bod digon o gyfarpar, cyflenwadau a chyfleusterau ar gael i'r bobl. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i arwain y staff ac ymwelwyr er mwyn sicrhau bod arferion hylendid da ar waith a lleihau'r risg o heintiau yn y cartref. Gwnaed gwelliannau i'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer nodi risgiau iechyd a diogelwch yn y cartref a'u lliniaru a'u lleihau gymaint â phosibl er mwyn cadw'r bobl yn ddiogel.

## Gofal a Chymorth

Yn ystod yr arolygiad hwn, nodwyd gennym fod gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r gwaith cynllunio gofal a'r gwaith asesu risg mewn perthynas ag anghenion gofal a chymorth y bobl. Mae'r cofnodion yn dangos bod ychydig llai na hanner y bobl yn y cartref wedi cael adolygiad llawn o'u hanghenion iechyd a bod cynlluniau personol newydd wedi cael eu hysgrifennu ar gyfer eu gofal a'u cymorth. Bu un aelod penodol o'r tîm rheoli wrthi'n cwblhau'r gwaith hwn, gan weithredu fel aelod ychwanegol o staff drwy gydol y broses, ac mae'r gwaith i ddiweddaru cynlluniau'r preswylwyr eraill yn mynd rhagddo. Gwelsom dystiolaeth glir fod y bobl yn cael eu cynnwys wrth adolygu eu hanghenion ac yn yr adolygiadau rheolaidd o'r cynlluniau. Mae'r cynlluniau personol newydd a welsom a oedd wedi'u cwblhau yn fwy manwl na'r hyn a welwyd yn ystod arolygiadau blaenorol ac, ar y cyfan, maent yn adlewyrchu anghenion gofal y bobl yn well, gan gynnwys cyfeiriadau clir at fesurau perthnasol i leihau'r risgiau i'r bobl. Mae'r asesiadau risg, yn benodol mewn perthynas â chwympiadau, wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf ac maent yn ystyried yr holl ffactorau dylanwadol perthnasol megis hanes blaenorol o gwympiadau, problemau symudedd, iechyd y croen, meddyginiaeth ac unrhyw risgiau posibl mewn perthynas â deiet a maeth. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen mwy o waith o hyd i wella manylder a chysondeb yng nghynlluniau personol y bobl. Roedd y staff gofal a'r staff rheoli y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o fanylion gwerthfawr am ddewisiadau un unigolyn o ran cymorth a gofal nad oeddent wedi'u nodi yn ei gynlluniau personol. Gwelsom fod y cynlluniau maeth ac iechyd y croen ar gyfer un person yr oedd risg y byddai'n colli pwysau ac yn dioddef niwed i'w groen yn cynnwys canllawiau anghyson i'r staff gofal o ran cofnodi faint o fwyd a hylif y mae'n eu cael. Dywedodd y rheolwr newydd wrthym y bydd yn darparu cymorth ychwanegol ac yn gweithio ochr yn ochr â'r staff er mwyn diweddaru'r cynlluniau sy'n weddill a chwblhau cynlluniau personol ac asesiadau ar gyfer preswylwyr newydd sy'n cael eu derbyn. Mae'r mater hwn yn peri risg o niwed i lesiant, diogelwch ac iechyd y bobl o hyd. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

Gwelsom fod gan y staff gofal gydberthynas dda â'r bobl a'u bod yn darparu gofal a chymorth caredig, tyner, parhus ac amserol. Clywsom y staff gofal a'r bobl yn sgwrsio yn Gymraeg a gwelsom y staff gofal yn cadw cyswllt llygad da ac yn rhoi cysur corfforol i'r bobl i'w harwain a rhoi tawelwch meddwl iddynt pan fo angen. Gwelsom arferion symud a chodi a chario da ac roedd y staff yn hyderus wrth sôn am anghenion a dewisiadau'r bobl. Mae'r cofnodion gofal yn dangos bod y gofal y mae'r bobl yn ei gael yn unol â'u cynlluniau personol ond gellid cynnwys mwy o fanylder wrth ddisgrifio hwyliau a phrofiadau'r bobl bob dydd; byddai hyn yn helpu wrth gynnal adolygiadau rheolaidd o'u cynlluniau personol yn y dyfodol. Mae'r staff gofal yn diweddaru'r cofnodion hyn yn rheolaidd drwy gydol eu shifft. Gwelsom y staff gofal yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd a chydag aelodau'r tîm rheoli drwy gydol eu shifft, gan gynnwys diweddariadau yn dilyn ymweliadau gan weithwyr proffesiynol allanol.

Gwnaed rhai gwelliannau i'r prosesau  sydd ar waith i ddiogelu'r bobl yn y cartref. Mae'r polisi diogelu bellach yn adlewyrchu deddfwriaeth yng Nghymru a gweithdrefnau diogelu lleol. Mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos bod pob aelod o'r staff, gan gynnwys yr Unigolyn Cyfrifol newydd arfaethedig, wedi cael hyfforddiant ar weithdrefnau Diogelu Cymru gyfan, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, a nodwyd fel diffyg yn yr arolygiad diwethaf. Gwelsom fod dogfennaeth newydd wedi'i chyflwyno i'w defnyddio ar ôl i unigolyn gwympo er mwyn helpu'r staff i nodi pryd y dylid gwneud atgyfeiriadau a sut i'w gwneud. Gwelsom fod gweithdrefnau'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid wedi cael eu dilyn yn briodol wrth wneud cais ar gyfer unigolion yn dilyn cyngor gan weithwyr proffesiynol. Nid yw'r darparwr wedi gallu dangos yn ddigonol eto bod y newidiadau hyn wedi bod yn effeithiol wrth nodi a lleihau'r risgiau i'r bobl. Mae'r bobl yn parhau i wynebu risg posibl i'w llesiant, eu hiechyd a'u diogelwch. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod cyflenwadau digonol o gyfarpar glanhau a  chyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn y cartref. Mae staff yn gweithio shifftiau yn y cartref er mwyn ei lanhau bob dydd. Mae polisïau a gweithdrefnau i arwain y staff ac ymwelwyr wrth leihau a rheoli'r risg o heintiau yn y cartref. Bu'r cartref yn destun archwiliad fferylliaeth allanol yn ddiweddar ac roedd y cofnodion yn dangos bod rhai o'r materion a nodwyd eisoes wedi'u datrys a bod gwaith yn mynd rhagddo i ddatrys y materion eraill. Gwelsom arferion rhoi meddyginiaeth da yn ystod ein hymweliad arolygu.

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref yn gynnes, yn lân ac yn groesawgar. Caiff y tir ei gynnal a'i gadw'n dda a gwelsom ardaloedd eistedd dymunol i'w defnyddio yn ystod y misoedd cynhesach. Mae'r cartref wedi'i leoli ar wahanol lefelau ac mae sawl ardal gymunedol i'r bobl ddewis o'u plith. Mae'r brif ardal fwyta yng nghanol y cartref yn fawr ac mae digon o le i'r rhan fwyaf o breswylwyr adeg prydau. Gwelsom fod nifer o fyrddau bwyta wedi'u trefnu ar gyfer grwpiau o bedwar i chwe pherson a bod bwydlen a lleoedd penodol wedi'u gosod ar y byrddau hynny adeg prydau, gan ddarparu profiad bwyta cymdeithasol o ansawdd i'r bobl. Mae'r ddwy brif lolfa yn cynnig digonedd o seddi cyfforddus i'r bobl ac mae un lolfa hefyd yn cynnig ardal fwyta ychwanegol pe byddai'n well gan y bobl fwyta yno. Gwelsom fod y gwaith addurno yn yr ardaloedd cymunedol yn ffres, yn olau ac yn gartrefol.

Gwelsom wahanol ystafelloedd gwely ym mhob rhan o'r cartref. Roedd y bobl yn falch dangos eu hystafelloedd gwely i ni a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hoffi treulio amser ynddynt. Gwelsom fod yr ystafelloedd gwely wedi'u haddurno'n hyfryd a'u bod yn cynnwys yr holl ddodrefn a chyfarpar sydd eu hangen ar y bobl. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt ardal eistedd â chadair gyfforddus a theledu yn ogystal â gwely a man storio dillad; mae'r holl ddarnau dodrefn mwy o faint wedi'u gosod yn sownd wrth y waliau pan fydd angen. Gwelsom fod matiau synhwyraidd ac eitemau eraill o gyfarpar arbenigol yn cael eu defnyddio pan fo angen. Mae'r ystafelloedd ymolchi, a'r cyfleusterau ensuite a welwyd, mewn cyflwr da ac yn lân, ac yn cynnwys digon o le ar gyfer unrhyw gyfarpar ymolchi sydd ei angen. Gwelsom fod cyfleusterau storio ar gyfer cynnyrch ymolchi personol ar gael yn ystafelloedd y bobl, hyd yn oed os nad oes ganddynt gyfleuster ensuite.

Gwelsom dystiolaeth fod y trefniadau ar gyfer profi cyfarpar trydanol a gwasanaethu cyfarpar arbenigol yn gyfredol, gan gynnwys cyfarpar diogelwch tân. Gwelsom dîm cynnal a chadw ar y safle yn ystod ein hymweliad a oedd wrthi'n adnewyddu rhai o'r ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi. Mae darparwr y gwasanaeth wedi buddsoddi mewn gwaith parhaus i gynnal a chadw'r eiddo ac yn sicrhau bod gwaith atgyweirio a thasgau cynnal a chadw cyffredinol yn cael eu cwblhau mewn modd amserol ac i safon dda.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom nodi'r gwelliannau diweddar a wnaed i'r trefniadau ar gyfer monitro'r ffordd y caiff y cartref ei redeg o ddydd i ddydd a threfniadau darparwr y gwasanaeth i oruchwylio'r trefniadau rheoli. Dechreuodd y rheolwr newydd yn ei swydd ychydig wythnosau cyn ein harolygiad, ond mae eisoes wedi rhoi amrywiaeth o brosesau a systemau newydd ar waith i gefnogi'r staff ac i fonitro ansawdd y gofal a chymorth y mae'r bobl yn ei gael. Mae un o gyfarwyddwyr eraill darparwr y gwasanaeth yn gwneud cais i ddod yn Unigolyn Cyfrifol ac mae wedi bod yn cefnogi'r rheolwr a'r tîm rheoli ehangach yn ystod yr wythnosau diwethaf. Gwelsom restr wirio ddeufisol newydd ar gyfer monitro ansawdd a oedd ar waith rhwng y rheolwr a darparwr y gwasanaeth a'r Unigolyn Cyfrifol. Mae hyn yn cynnwys trosolwg o faterion a digwyddiadau mewn perthynas â lles y preswylwyr, staffio gan gynnwys lefelau, materion a recriwtio, y safle gan gynnwys materion cynnal a chadw a chyfarpar, cyllid a rheolaeth gyffredinol a materion gweinyddol. Dangosodd y rheolwr archwiliadau a gynhaliwyd yn ddiweddar o'r cofnodion gofal, cwympiadau, yr adnodd dibyniaeth newydd a'r systemau rota er mwyn sicrhau bod lefelau digonol o staffio. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod mewn cysylltiad rheolaidd â'r cyfarwyddwr ac yn teimlo bod y cyfarwyddwr yn ei gefnogi'n dda. Mae'r cofnodion yn dangos bod y cyfarwyddwr wedi cyfarfod â'r comisiynwyr ac wedi ymweld â'r gwasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac mae cynlluniau ar waith ar gyfer ymweliadau rheolaidd yn y dyfodol. Mae angen mwy o amser i'r cyfarwyddwr / Unigolyn Cyfrifol arfaethedig ddangos yn llawn y gall fodloni gofynion y rheoliadau ond mae'r gwelliannau a welwyd yn ystod yr arolygiad hwn yn gadarnhaol.

Gwelsom fod adroddiad ar yr adolygiad diweddaraf o ansawdd y gofal yn y cartref yn dangos bod adborth gan y bobl yn cael ei ystyried, ond nid yw'n dangos dadansoddiad digonol o ganlyniadau archwiliadau, unrhyw faterion diogelu, cwynion na phryderon yn ystod y cyfnod adrodd o hyd. Er bod gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r systemau ar gyfer adolygu ansawdd y gofal yn y cartref ers yr arolygiad diwethaf, mae angen cynnydd pellach er mwyn cyflawni cydymffurfiaeth. Mae'r materion parhaus a nodwyd yn yr arolygiad hwn yn parhau i beri risg bosibl o niwed i lesiant y bobl. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod aelodau newydd o'r staff yn destun gwiriadau fetio cadarn cyn cael eu cyflogi a bod y gwiriadau addasrwydd i weithio ym maes gofal cymdeithasol yn barhaus. Mae'r cofnodion yn dangos bod y rheolwr yn archwilio ffeiliau'r staff ac yn monitro cofrestriad y staff gofal â Gofal Cymdeithasol Cymru a diweddariadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn rheolaidd. Nid yw'r gwasanaeth yn llawn ar hyn o bryd ond mae'n bwriadu dechrau derbyn pobl unwaith eto; mae'r lefelau staffio cyfredol yn briodol ar gyfer y nifer o bobl sy'n byw yno. Gwnaethom drafod cynlluniau'r darparwr i sicrhau y caiff hyn ei wneud mewn modd cynaliadwy nad yw'n cael effaith negyddol ar y bobl sy'n byw yn y cartref ar hyn o bryd. Dangosodd y rheolwr yr adnodd dibyniaeth newydd

y mae wedi'i roi ar waith er mwyn hwyluso'r broses o ddyrannu staff a chreu rotas. Mae'n fanwl ac yn gadarn a chaiff ei ddefnyddio wrth rag-asesu unigolion newydd posibl i'w derbyn er mwyn sicrhau y gall y set sgiliau a'r lefelau staffio ddiwallu anghenion pawb. Ni chafwyd cyfle eto i ddangos ei fod yn effeithiol yn ymarferol. Yn ogystal, mae angen i'r darparwr ddangos bod y systemau sydd ar waith ganddo yn sicrhau bod modd addasu lefelau staffio a'u bod yn sicrhau gofal a chymorth diogel ac effeithiol o ansawdd da i'r bobl. O ganlyniad, mae'r bobl yn wynebu risg o niwed i'w hiechyd a'u llesiant o hyd. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 21 | Nid yw'r darparwr wedi dangos gwelliannau digonol eto o ran manylder a chysondeb y canllawiau a roddir i'r staff gofal yng nghynlluniau gofal y bobl, nac o ran cysondeb a chywirdeb y cofnodion sy'n nodi'r gofal a'r cymorth y mae'r bobl yn eu cael. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod y cynlluniau gofal yn darparu gwybodaeth berthnasol i roi arweiniad cyson i'r staff o ran y ffordd orau o helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau dymunol, a bod y cynlluniau gofal yn cynnal, yn hyrwyddo ac yn diogelu llesiant a diogelwch y bobl. | Heb Gyflawni |
| 80 | Nid yw'r adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal yn cydymffurfio â'r hyn sy'n ofynnol gan y rheoliad. | Heb Gyflawni |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod trefniadau parhaus a chynaliadwy ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth, gan gynnwys adborth gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill. | |
| 26 | Er bod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud, nid yw'r darparwr wedi dangos yn ddigonol eto bod y prosesau a'r systemau newydd sy'n ymwneud â diogelu yn ymarferol effeithiol a'u bod yn cadw'r bobl yn ddiogel. Rhaid i'r staff a'r Unigolyn Cyfrifol ddangos bod ganddynt ddigon o wybodaeth a'u bod yn goruchwylio digwyddiadau yn y gwasanaeth yn ddigonol er mwyn diogelu'r bobl mewn modd cadarn. | Heb Gyflawni |
| 34 | Nid yw'r darparwr wedi dangos yn ddigonol eto y bydd y systemau newydd sydd ar waith yn cynnal y lefelau staffio cyfredol pe byddai cynnydd o ran lefelau dibyniaeth a deiliadaeth. Rhaid i'r darparwr sicrhau y caiff gwelliannau i'r lefelau staffio eu cynnal wrth i'r lefelau deiliadaeth gynyddu a rhaid iddo ddangos bod digon o staff ar ddyletswydd bob amser i oruchwylio'r bobl a'u diogelu rhag niwed. | Heb Gyflawni |
| 35 | Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi methu â rhoi gwybod i'r cyrff proffesiynol perthnasol pan na fydd person yn addas i weithio yn y gwasanaeth mwyach. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol roi gwybod i'r corff proffesiynol perthnasol a'r rheoleiddiwr pan na fydd person yn addas i weithio yn y gwasanaeth mwyach. | Cyflawnwyd |
| 60 | Mae'r darparwr wedi methu â rhoi gwybod i AGC am rai digwyddiadau fel sy'n ofynnol yn y rheoliadau. Rhaid rhoi gwybod am ddigwyddiadau hysbysadwy i AGC o fewn yr amserlen ofynnol. | Cyflawnwyd |
| 57 | Nid oes gan ddarparwr y gwasanaeth ddull rhagweithiol o sicrhau diogelwch y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rhaid i'r darparwr sicrhau y caiff risgiau diangen i iechyd a diogelwch y bobl eu nodi a'u dileu. | Cyflawnwyd |
| 36 | Nid yw pob aelod o'r staff, gan gynnwys yr Unigolyn Cyfrifol, wedi cwblhau hyfforddiant ym meysydd Diogelu, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Rhaid i bob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant ar y pynciau hyn er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau i | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | ofalu am y bobl mewn modd diogel. | |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 35 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod tystysgrifau newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cyhoeddi o fewn yr amserlen o dair blynedd. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod systemau ar waith i nodi pan fydd tystysgrif aelod o staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar fin dod i ben fel y gellir cymryd camau priodol. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/03/2024